# Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De, 18 Medi 2017

## 15:00 – 17:00, Prifysgol De Cymru, Campws Trefforest, Pontypridd

**Aelodau'r Tasglu**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies AC (Cadeirydd)
Ann Beynon, Cadeirydd, Bwrdd Dinas-ranbarth Caerdydd, cyn-Brif Weithredwr BT
Jocelyn Davies, cyn-Ddirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio
Andrew Diplock, Entrepreneur, Cynghorydd Busnes a Buddsoddwr Angel
Fiona Jones, Cyfarwyddwr, yr Adran Gwaith a Phensiynau
Y Cyng. Andrew Morgan – Rhondda Cynon Taf

**Aelodau'r Bwrdd**
Helen Davies, Llywodraeth Cymru, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ( ar ran Tracey Burke)
John Howells, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio
Maureen Howell, Llywodraeth Cymru, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant
Deri Ap Hywel, Llywodraeth Cymru, Arweinydd Prosiect Tasglu'r Cymoedd
Chris Tudor-Smith, Llywodraeth Cymru, Uwch-swyddog Cyfrifol Bil Iechyd y Cyhoedd
Deborah McMillan, Llywodraeth Cymru, Cynghorydd Proffesiynol Awdurdodau Lleol, Addysg
Phil Lewis, Llywodraeth Cymru, Pennaeth Ffyniant i Bawb Cydraddoldeb a Ffyniant

**Ysgrifenyddiaeth y Tasglu**
Dawn Chadwick, Llywodraeth Cymru, Uwch-reolwr Cyfathrebu a Marchnata
Lisa Rimmer, Llywodraeth Cymru, Uwch-reolwr Rhaglen Tasglu'r Cymoedd, Cydraddoldeb a Ffyniant (yn cadw cofnodion)

**Ymddiheuriadau**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Ken Skates AC
Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, Julie James AC
Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig
Judith Evans, Pennaeth Coleg y Cymoedd
Dr Chris Jones, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC
Yr Athro Brian Morgan, Prifysgol Caerdydd
Gaynor Richards, Cyfarwyddwr, Cyngor Gwirfoddol Cymunedol Castell-nedd Port Talbot

Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau

1. Croesawodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes (ARD) aelodau'r tasglu i'r chweched cyfarfod. Nododd fod y cynllun lefel uchel, *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* wedi cael ei lansio ers ein cyfarfod diwethaf ym mis Mehefin, ac fe'i croesawyd ar y cyfan.
2. Dywedodd ARD fod digwyddiadau defnyddiol i ennyn diddordeb y cyhoedd wedi cael eu cynnal dros yr wythnosau diwethaf, a bod y rhai a aeth iddynt wedi gwneud sylwadau adeiladol.
3. Bydd Cynllun Cyflawni manylach yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.

Eitem 2: Blaenoriaeth 1 - swyddi o ansawdd a'r sgiliau i'w cyflawni

*Twf busnesau a busnesau newydd*

4. Trafodwyd adborth o'r gweithdy allanol. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

   a. Mae'r amgylchedd yn un cymhleth ar gyfer entrepreneuriaid sy'n sefydlu busnes newydd; mae myrdd o gynlluniau cymorth.
   b. Gallai'r tasglu weithio ar y cam gweithredu cadarnhaol, 'Creu Sbarc', i ddatblygu twf busnesau ac i ddatblygu busnesau newydd. Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gynnig cymorth i fusnesau newydd oedd drwy gefnogaeth gan gymheiriaid. Roedd angen i'r tasglu gynyddu cyfleoedd i bobl mewn busnesau sy'n tyfu gael siarad â phobl â busnesau sydd wedi'u hen sefydlu. Gellid gwneud hyn o fewn fframwaith Creu Sbarc.
   c. Mae nifer o rwydweithiau i entrepreneuriaid yn bodoli eisoes a dylai'r tasglu gysylltu â nhw.
   d. Roedd angen dathlu llwyddiant, er enghraifft drwy seremonïau gwobrwyo.
   e. Roedd yn hanfodol fod y tasglu wedi'i alinio â'r Bargeinion Dinas ac yn gweithio ochr yn ochr â nhw.

*Canolfannau strategol*

5. Cyflwynwyd crynodeb o'r gweithdy i randdeiliaid allanol ac roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

   a. Un o'r prif fanteision a gynigir gan y tasglu yw ei fod yn gallu canfod ffynonellau cyllid a dod â nhw at ei gilydd mewn modd strategol.
   b. Trafodwyd 'adfachu'. Cytunwyd fod yr adroddiad ar raglen beilot Cwm Taf [a gyhoeddir ar 25.09.17] yn darparu sylfaen dystiolaeth dda ac y dylid ei ddefnyddio i lywio camau gweithredu.

*Yr Economi Sylfaenol*

6. Cyflwynwyd crynodeb o'r gweithdy i randdeiliaid allanol a nodwyd bod angen alinio â gwaith y Bartneriaeth Dysgu, Medrau ac Arloesi (LSKIP) sydd eisoes wedi datblygu cynigion ynghylch y mater hwn a bod potensial iddynt arwain ar nifer o'r camau gweithredu hyn. Mae angen i'r Bargeinion Dinas, LSKIP a'r tasglu ddod at ei gilydd i gyflawni'r gwaith hwn.

7. Atgoffwyd aelodau'r tasglu y bydd Cathy Parker o'r Institute of Place Management yn cyflwyno casgliadau a dynnwyd o sylfaen dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio mewn perthynas ag adfywio canol trefi a datblygu cymunedau ar 22.09/17 yng Nghanolfan Orbit

ym Merthyr Tudful.

*Llwybrau cyflogadwyedd*

8. Trafodwyd y ffrwd waith hon gan aelodau'r tasglu a nodwyd y pynciau trafod allweddol a ganlyn:
a. Mae angen cysylltiadau cryf rhwng yr hyn y mae busnesau ei angen o ran sgiliau a'r hyn y mae ysgolion a cholegau'n ei gynnig.
b. Awgrymwyd fod hwn yn faes lle’r oedd gormod o gymhlethdod.

<u>Eitem 3: Blaenoriaeth 2 - Gwell gwasanaethau cyhoeddus</u>

*Canolfannau cymunedol*

9. Dywedwyd fod y cyfarfod ar gyfer rhanddeiliaid canolfannau cymunedol wedi bod yn llwyddiant a'i bod wedi dod yn amlwg faint o waith da sydd eisoes yn digwydd ledled y Cymoedd.
10. Nodwyd fod hyn yn cysylltu â gwaith i annog ysgolion i ganiatáu i gymunedau ddefnyddio'u hadnoddau, yn rhad ac am ddim. Awgrymwyd hefyd y gellid defnyddio Canolfannau Byd Gwaith yn fwy hyblyg, at ddibenion partneriaid a darparwyr.
11. Tynnwyd sylw at yr angen i alinio â Chanolfannau Integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

<u>Eitem 4: Parc Tirweddau'r Cymoedd</u>

12. Cyflwynwyd sylwadau o weithdy'r rhanddeiliaid allanol a nodwyd y pwyntiau canlynol:
a. Roedd pobl yn gytûn fod yr enw ar gyfer y gwaith yn gamarweiniol, ond ni chafwyd gwell awgrym hyd yma!
b. Roedd y rhai a ddaeth i'r gweithdy'n glir ynghylch beth fyddai mesur llwyddiant.
c. Roedd angen elfen o sicrhau ansawdd i'r cynllun lwyddo.
d. Roedd angen meddwl ymhellach am gamau gweithredu sy’n canolbwyntio ar dreftadaeth. Bydd arolwg Cydnerthedd Cymru Gyfan yn cael ei chyhoeddi cyn bo hir ac roedd diwylliant a threftadaeth Cymru yn elfennau cryf yn ôl y canlyniadau.
e. Y camau nesaf fydd sicrhau cyllid ar gyfer y timau arweiniol a chynorthwyol a sefydlu ystorfa o'r prosiectau sydd eisoes ar waith sy'n cysylltu â'r Parc Tirweddau arfaethedig.

<u>Eitem 5: Sylwadau i gloi</u>

13. Diolchodd ADR i aelodau'r tasglu am eu cyfraniadau gwerthfawr.
14. Cytunwyd y byddai fersiwn 'bron â bod yn derfynol' y Cynllun Cyflawni'n cael ei rannu ag aelodau'r tasglu ar 6.10.17, â'r bwriad fod sylwadau yn cyrraedd tîm y tasglu erbyn 13.10.17.